# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 15th May 2013. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** D. Huw Williams | **Tel:** 01639 845868 |
| **Ward:** Ystradgynlais | **Mobile:** |
| **Shire:** Brecknockshire | **Email:** cllr.huw.williams@powys.gov.uk |
| **Group:** Non-Aligned | **Date:** September 2013 |

**Section 1: Role & Responsibilities**

I served on these Powys County Council Committees [actual attendance/number of meetings held] and Working Groups :
Powys County Council – 9/9
Environment, Infrastructure and Crime and Disorder Scrutiny Committee – 4/4
Democratic Services Committee – 4/6

- Member Development Working Group

Planning, Taxi Licensing and Rights of Way Committee – 22/25
Brecknockshire – 6/7

I served on the following outside organisations:
Brecon and Radnor Community Health Council – (including Hospital Patient Environment [HPE] visits and Local Health Focus Group Chair)
Local Education Authority [LEA] School Governing Bodies – Maesydderwen Comprehensive School and Golwg y Cwm CP School
Ystradgynlais Sports Centre Representative
Ystradgynlais Volunteer Representative

**Section 2: Constituency Activity**

I have supported groups and individuals with the following issues:

- Highways – liaised between local residents and Powys County Council Highways Department regarding reconfiguration of roads and bus stop areas around Golwg y Cwm School.
- Dealt with various traffic issues including pavement bollards, various parking disputes (attempted mediation), the movement of the bus shelter, and street lighting issues.
- Expressed constituent's concerns over the deployment of the mobile Police Station in TESCO car park rather than Ystradgynlais centre.
- Facilitated bus route rescheduling and new timetables, routes, disabled access/raised kerbs, etc, negotiating with Powys Officers.
- Supported residents suffering rat infestations, high hedges and mediated neighbour disputes.
- Liaised between Senior Citizens and Environmental Agency regarding floodlighting of riverside work.
- Negotiated with Environmental Agency regarding the clearance of fallen trees in

River Tawe after a local resident expressed fears of flooding.

- Grass cutting – Liaised with Powys County Council Local Environmental Service Department over various grass cutting, hedge trimming, sewerage and gutter clearance matters.
- Penybryn/Aelybryn Estate – I dealt with various maintenance issues raised whilst on the Estates, for example repairs to external electricity and gas meter cupboards, clearance of 'rear' house footpaths and liaison with Estate Warden. I dealt with other relevant issues highlighted in regular discussion with Housing Maintenance Officer including environmental works such as repairs to fences and walls. I discussed Welsh Housing Quality Standard [WHQS] works and supported individuals with heating issues.
- On behalf of residents, I followed up the outstanding community works left after 'completion' of Golwg y Cwm CP School development.
- I met with Ystradgynlais Hospital Managers to discuss the Minor Injury Unit [MIU] and other health matters. This work is ongoing.

**Section 3: Learning & Development** - after the Elections in May 2012 induction sessions were provided during May and June to ensure that Councillors could undertake their roles. Ongoing monthly development is provided.

Induction Sessions – Induction 1,2 & 3; Code of Conduct; Regulatory Committee – Planning, Windfarms, Rights of Way, Taxi Licensing; Safeguarding and Corporate Parenting; Planning Protocol; Welsh Local Government Association Scrutiny Induction

Ongoing Development - Treasury Management, Information Handling and Data Protection, Estyn Update; Adult Social Care; Powys Change Plan; Making social media work for councillors.

**Section 4: Outside Organisations and Other Activities**

I supported local Scouts, Youth Club and St. John Ambulance functions.
I attended and supported Local Access Group Meetings.

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion gweithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn yn diweddu 15fed Mai 2013. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** D. Huw Williams | **Ffôn:** 01639 845868 |
| **Ward:** Ystradgynlais | **Ffôn symudol:** |
| **Sir:** Brycheiniog | **Ebost:** cllr.huw.williams@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Amhleidiol | **Dyddiad:** Medi 2013 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Rwyf wedi gwasanaethu ar y pwyllgor a gweithgorau isod o fewn Strwythur Cyngor Sir Powys [presenoldeb gwirioneddol/nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd] :
Cyngor Sir Powys – 9/9
Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn – 4/4
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – 4/6

- Gweithgor Datblygu Aelodau

Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy – 22/25
Sir Frycheiniog – 6/7

Rwyf wedi gwasanaethu ar y sefydliadau allanol canlynol:
Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed - (gan gynnwys ymweliadau Amgylchedd Cleifion mewn Ysbytai [HPE] a Chadeirydd Grŵp Ffocws Iechyd Lleol)
Cyrff Llywodraethu Ysgolion yr Awdurdod Addysg Leol – Ysgol Uwchradd Maesydderwen ac Ysgol Gynradd Golwg y Cwm
Cynrychiolydd Canolfan Chwaraeon Ystradgynlais
Cynrychiolydd Gwirfoddolwyr Ystradgynlais

**Adran 2: Gweithgaredd o fewn yr Etholaeth**

Rwyf wedi cefnogi grwpiau ac unigolion gyda'r materion canlynol:

- Priffyrdd – fel cyswllt rhwng trigolion lleol ac Adran Priffyrdd Cyngor Sir Powys ynghylch ad-drefnu ffyrdd a mannau codi bysiau yn ardal Ysgol Golwg y Cwm.
- Wedi delio gyda materion amrywiol ym maes traffig, gan gynnwys bolardiau ar y pafin, anghydfodau amrywiol am barcio (wedi ceisio cyfryngu), symud cysgodfa bws a phroblemau gyda goleuadau stryd.
- Wedi mynegi pryderon etholwyr ynghylch adleoli Gorsaf symudol yr Heddlu ym maes parcio TESCO yn lle canol Ystradgynlais.
- Wedi hwyluso ad-drefnu amserlenni bysiau, amserlenni newydd, llwybrau, mynediad i'r anabl/ cyrbiau uwch, ac ati, gan drafod gyda Swyddogion Powys.
- Wedi cefnogi trigolion oedd yn dioddef oherwydd pla o lygod mawr, gwrychoedd uchel ac wedi cyfryngu mewn anghydfodau rhwng cymdogion.
- Wedi bod yn gyswllt rhwng Pensiynwyr ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch llifoleuo gwaith ar lannau'r afon.
- Wedi trafod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch clirio coed oedd wedi

cwympo i AfonTawe ar ôl i un o'r trigolion lleol mynegi pryder ynghylch llifogydd.

- Torri glaswellt - wedi bod yn gyswllt gydag Adran Gwasanaethau Amgylcheddol lleol Cyngor Sir Powys ynghylch torri glaswellt, tocio gwrychoedd, problemau carthffosiaeth a chlirio cwteri.
- Ystâd Penybryn/Aelybryn - wedi delio gyda nifer o faterion cynnal a chadw ar yr Ystadau, er enghraifft, atgyweirio cypyrddau metrau trydan a nwy tu allan, clirio llwybrau yng nghefn y tai a bod yn gyswllt gyda Warden yr Ystâd. Rwyf wedi delio gyda phroblemau perthnasol eraill a nodwyd mewn trafodaethau rheolaidd gyda'r Swyddog Cynnal Tai, gan gynnwys gwaith amgylcheddol megis atgyweirio ffensys a waliau. Rwyf wedi trafod gwaith Safonau Ansawdd Tai Cymru [WHQS] ac wedi cefnogi unigolion gyda phroblemau gwresogi.
- Ar ran trigolion, rwyf wedi delio gyda gwaith cymunedol oedd yn weddill ar ôl 'cwblhau' Ysgol Golwg y Cwm.
- Rwyf wedi cwrdd â Rheolwyr Ysbyty Ystradgynlais i drafod yr Uned Mân Anafiadau a materion iechyd eraill. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

**Adran 3: Dysgu a Datblygu** – ar ôl etholiadau Mai 2012 darparwyd sesiynau ymsefydlu yn ystod mis Mai a Mehefin i sicrhau fod Cynghorwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Darperir rhaglen datblygiad misol parhaus.

Sesiynau Ymsefydlu - Ymsefydlu 1, 2 & 3; Côd Ymddygiad; Pwyllgor Rheoleiddio - Cynllunio, Ffermydd Gwynt, Hawliau Tramwy, Trwyddedu Tacsis; Diogelu a Rhianta Corfforaethol; Protocol Cynllunio; Cynefino â Chraffu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Datblygiad parhaus – Rheoli'r Trysorlys, Trin Gwybodaeth a Diogelu Data; diweddariad Estyn; Gofal Cymdeithasol i Oedolion; Cynllun Newid Powys; Cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr .

**Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**

Rwyf wedi cefnogi digwyddiadau'r Sgowtiaid lleol, y Clwb Ieuenctid ac Urdd Sant Ioan. Rwyf wedi bod yn bresennol mewn ac wedi cefnogi Cyfarfodydd y Grŵp Mynediad Lleol.